cbac wjec

# TGAU – NEWYDD

3010N20-1

S17-3010N20-1

## LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 2: Y Nofel
### HAEN SYLFAENOL

DYDD MERCHER, 24 MAI 2017 – BORE

1 awr 15 munud

3010N201
01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.


| NOFELAU | Tudalen |
| --- | --- |
| LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas) | 2 |
| BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman Addasiad Elin Meek) | 4 |
| DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn) | 6 |
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 8 |
| I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 10 |
| DIM (Dafydd Chilton) | 12 |


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**LlINYN TRÔNS – Bethan Gwanas**

**1.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae gweithgaredd yr abseilio yn bwysig i stori'r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** ddigwyddiad yn y nofel sy'n dangos bod Nobi'n gas i Llion. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes y criw yn ystod y bore olaf yn y gwersyll.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Dei?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **Llinyn Trôns** ar dudalen 3.

(i) Edrychwch ar arddull llinell 5 yn y darn.
*"Be? Chi ydi'n instructor ni?"*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinell 21 yn y darn.
*Roedd ganddi lygaid brown, cynnes a 'nath hi wenu'n lyfli arna i.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Donna.
Ysgrifennwch **ymson Donna** ar noson y disgo yn y gwersyll.
Cofiwch sôn am deimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

"Helô, Donna ydw i, a fi fydd efo'r tîm yma am y penwythnos."

Dyma bawb yn troi i sbio arni. Waw, roedd hi'r un ffunud â honna efo gwallt hir melyn yn y Gladiators erstalwm, dim ond ei bod hi mewn *leggings* tyn du a top *fleece* mawr piws. Ond roeddet ti'n gallu gweld siâp y cyhyrau yn ei choesau hi drwy'r *leggings*.

"Be? Chi ydi'n *instructor* ni?" holodd Nobi, fel 'tase fo'm yn credu'r peth.

"Ia. Hyfforddwr, cynorthwyydd, be bynnag."

"Chi?" holodd Gags wedyn. "Chi sy'n mynd i'n dysgu ni i ganwio a dringo?"

"Ia, pam? 'Dach chi'm yn edrych yn hapus iawn am y peth. Be sy?"

Edrychodd Nobi a Gags ar ei gilydd am eiliad, ac roedd Nobi yn edrych fel 'tasai fo ar fin deud rhwbath, ond mi dorrodd Gags ar ei draws o.

"Dim byd. Dim byd o gwbl. Jest synnu mai merch ydach chi."

Roedd y timau eraill i gyd yn gwrando'n astud ar eu hyfforddwyr nhw – dynion bob un. Dynion tal, cry, efo wynebau fel Tryfan, yn lliw haul a chrychau difyr i gyd. Roedd Donna yn edrych fel un ohonan ni.

"Ti'm yn meddwl bod merch yn gallu gneud pethau fel 'na?"

"Dw i'm yn deud hynny..."

"Dw i'n falch! Peidiwch â phoeni, dw i cystal â rhai 'cw i gyd. Mi fyddwch chi'n ddigon diogel efo fi. Reit, be ydi'ch enwau chi i mi gael dod i'ch nabod chi? Mi fyddan ni i gyd wedi dod i nabod ein gilydd yn arbennig o dda erbyn diwedd y cwrs!"

Aethon ni drwy'r rigmarôl deud enwau jest yr unwaith, ac roedd hi'n cofio enw pawb yn syth. Roedd ganddi lygaid brown, cynnes a 'nath hi wenu'n lyfli arna i. Ond wedyn mi 'nath hi sôn be fydden ni'n 'neud fory, ac wedyn do'n i ddim mor siŵr os o'n i'n 'i licio hi. Cerdded i fyny blydi mynydd. Waw.

Wedyn, i 'neud pethau'n waeth, mi 'nath hi ddeud wrthan ni i feddwl yn galed am be oeddan ni fel unigolion yn gobeithio'i gael allan o'r tridiau 'ma. A hyd yn oed yn waeth na hynny, mi 'nath hi rannu dalennau o bapur A4 i ni a deud wrthan ni am sgwennu arnyn nhw be oeddan ni'n 'feddwl, a'u rhoi i mewn iddi hi wedyn.

"Be?" Doedd Nobi ddim yn swnio'n rhy hapus.

"Gwaith ysgol?"

"Fflipin hec," cwynodd Gwenan. "O'n i'n meddwl na fyswn i'n gorfod sgwennu traethawd byth eto. Ti'm yn siriys?"

"Ydw, hollol o ddifri," gwenodd Donna. "Jest rhyw baragraff bach 'neith y tro."

"Be? Sgwennu rhwbath am be 'dan ni'n gobeithio'i ddysgu 'lly?" gofynnodd Gags.

"Ia, am eich hunain, eich gilydd, y byd o'ch cwmpas chi – unrhyw beth!"

Edrychodd pawb ar ei gilydd, a dyma Dei'n dechrau sgwennu'n syth.

"Ydi o'n mynd i fod yn breifat?" holais i. Doedd gen i ddim llwchyn o awydd darllen rhwbath fel hyn allan o flaen pawb fel 'dan ni'n gorfod gwneud dragwyddol mewn gwersi Saesneg a Chymraeg. Ac o'n i isio gwbod os oeddan ni'n cael deud y gwir 'ta jest malu cachu, y stwff mae athrawon isio i ti sgwennu.

"Ydi, felly gewch chi fod yn hollol onest," atebodd Donna. "Mi fydda i'n eu rhoi nhw yn y ffeil 'ma, yn hollol ddiogel, a dw i'n addo na fydda i'n sbio arnyn nhw – a fydda i ddim yn gneud i chi ddarllen darnau eich gilydd na dim byd felly. Gewch chi sbio drostyn nhw – yn breifat – ar ddiwedd y cwrs i weld sut hwyl byddwch chi wedi'i gael ar wireddu'ch gobeithion."

"Gwireddu'ch gobeithion?" chwarddodd Gwenan. "Be uffar 'di hynna yn Gymraeg?"

3010N201
03

**BACHGEN YN Y MÔR – Morris Gleitzman (Addasiad Elin Meek)**

**2.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae mam y plant yn bwysig i stori'r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** ddigwyddiad yn y nofel ble mae Jamal a Bibi'n achosi i'w rhieni boeni amdanyn nhw. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes y teulu yng ngwersyll y ffoaduriaid.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Yusuf?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **Bachgen yn y Môr** ar dudalen 5.

(i) Edrychwch ar arddull llinell 1 yn y darn.
*Mae cwlwm yn fy stumog.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinell 20 yn y darn.
*Dros y dec i gyd, mae pobl yn pwyso yn erbyn ei gilydd ac yn griddfan.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Jamal.
Ysgrifennwch **ymson Jamal** ar ôl iddo gyrraedd tir sych / "Awstralia".
Cofiwch sôn am deimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

Mae cwlwm yn fy stumog.

'Rwyt ti'n athrylith, Jamal,' medd Omar, gan gnoi'r darn o fara gafodd i frecwast.

Dw i ddim yn teimlo fel athrylith. Dw i'n sâl môr.

Roedd Omar yn iawn. Mae'r tonnau wedi mynd yn fwy. Byddai'n haws pe na bai'r llong yn mynd i fyny pob un ac yna'n mynd i lawr pob un. Trueni na bai'r môr i gyd o'n cwmpas yn rhoi'r gorau i fynd i fyny ac i lawr hefyd.

Mae Bibi'n dringo drosof, ar ôl bod yn rhoi ychydig o fara i'r plant bach. O leiaf dyw hi ddim yn sâl môr. Dyna un peth da.

'Mae'r plant bach yn dweud diolch yn fawr' medd Bibi,' ac mae eu mam yn dweud dy fod yn athrylith.'

Mae Omar yn llusgo'i lein bysgota o'r dŵr ac yn archwilio'r abwyd. 'Fe allwn i fod yn athrylith hefyd petai'r pysgod twp 'ma'n bachu,' medd o dan ei anadl. 'Dw i'n meddwl eu bod nhw'n gwybod nad abwyd go iawn yw hwn. Dw i'n meddwl eu bod nhw'n gwybod mai fflwcs blanced yw e.'

Dw i'n ochneidio wrth i'r cwch symud i sawl cyfeiriad ar unwaith.

'Druan â ti,' medd Rashida, gan roi'i llaw ar fy nhalcen. 'Fe ddarllenais i rywle bod salwch môr yn dod i ben ar ôl diwrnod.'

'Ar ôl wythnos, glei,' medd Omar yn ddiflas.

'Dim ond pum niwrnod i fynd, Jamal.'

Dw i'n ofni ei fod e'n iawn. Mae hanner y bobl ar y cwch yn dioddef o salwch môr. Rhai'n waeth na mi. Dros y dec i gyd, mae pobl yn pwyso yn erbyn ei gilydd ac yn griddfan.

'Cymer,' medd Rashida, gan symud y crys-T sbâr y mae wedi'i glymu am fy mhen i gadw'r haul draw. 'Cymer lymaid o ddŵr.'

Mae'n codi tun llysiau i'm gwefusau.

'Dw innau'n sâl hefyd,' medd Omar yn grac o dan y pâr o siorts o gas dillad Rashida sydd wedi'i glymu am ei ben e.

Mae Rashida'n rhoi llymaid o ddŵr iddo yntau hefyd. Mae Bibi'n edrych yn gas arno.

Mae arogl chwd a phiso'n fy nharo a dw i'n gwneud fy ngorau i beidio â thaflu'r dŵr i fyny.

Am y miliynfed tro ers i ni ddechrau hwylio, dw i'n fy atgoffa fy hunan pam rydyn ni'n gwneud hyn. Rhewi ar ddec caled drwy'r nos. Rhostio drwy'r dydd. Gwylio plant bach a hen bobl druain yn dioddef yn waeth na ni, hyd yn oed.

Awstralia.

Pobl yn chwerthin.

Llywodraeth garedig.

Mam a Dad a Dubbo Abattoirs United.

Dw i'n gobeithio y byddwn ni'n cyrraedd cyn hir.

3010N201
05

**DIFFODD Y SÊR – Haf Llewelyn**

**3.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae mam Lora'n bwysig i stori'r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** beth caredig mae Anni'n eu gwneud i Lora. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes Anni'n dwyn y bag melfed yn y siop.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Wil Ffurat?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **Diffodd y Sêr** ar dudalen 7.

(i) Edrychwch ar arddull llinellau 2-3 yn y darn.
*Roedd hi'n un o'r nosweithiau rheiny pan oedd lliwiau'r wlad o'n cwmpas yn gymysgfa o borffor ac aur, a'r awyr yn las a digwmwl, fel mantell sidan.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinellau 33 yn y darn.
*Fedrwn i ddim gwylio rhagor. Faint mwy o wahanu sydd raid?*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Hywel.
Ysgrifennwch **ymson Hywel** ar ôl iddo briodi Lora.
Cofiwch sôn am deimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

Ond fe wydden ni na allen ni gadw Ellis adra am byth. Daeth Jini i fyny y noson cyn iddo adael. Roedd hi'n un o'r nosweithiau rheiny pan oedd lliwiau'r wlad o'n cwmpas yn gymysgfa o borffor ac aur, a'r awyr yn las a digwmwl, fel mantell sidan. Doedd yna'r un awel i greu cynnwrf rhwng dail y berllan, a'r byd yn llonydd ac yn ddisgwylgar.

Roeddwn i'n eistedd ar sil ffenest agored y landin pan ddaeth Ellis a Jini allan i ben y drws.

"Mi ddof i dy ddanfon di," meddai Ellis, a safodd i'r naill ochr er mwyn i Jini gael mynd heibio iddo trwy'r glwyd.

"Na, aros," meddai hithau, a gwyliais hi'n troi i'w wynebu. "Na, Ellis. Mae gen ti ddigon i'w wneud heno. Mi fedra i groesi'r afon yn iawn fy hun, ac mi fydda i mewn pryd i ddal y trên olaf."

Fedrwn i ddim clywed ateb Ellis, felly pwysais allan fymryn i gael golwg arno. Roedd o'n sefyll â'i gefn yn erbyn y wal fach, ei ben yn isel, fel tasa fo'n meddwl yn ddwys am rywbeth.

"Sgwenna pan gyrhaeddi di Litherland," meddai Jini. "Ella, ella, y cewch chi rai wythnosau eto yno, sti..."

"Na..." Prin clywed llais Ellis roeddwn i. "Na, mae'n bryd i ninna fynd yn ein blaena rŵan, Jini, waeth i ni wynebu hynny bellach. Mi fyddwn ni'n croesi am Ffrainc wythnos nesa, gei di weld."

Fedrwn i ddim edrych ar wyneb Jini. Roedd hi, fel finna, yn chwilio am ryw ffordd arall – rhyw achubiaeth i Ellis – ond doedd yna'r un ffordd arall i'w chymryd.

"Mi sgwenna i i ddeud be fydd yn digwydd, ond rhaid i ti wynebu mai mynd fydd raid i mi..." Yna, gwenodd Ellis a chydio yn ei dwy law a'u cusanu. "Ond pan ddof yn fy ôl, Jini Owen, mi fyddi di yma'n aros amdanaf i, yn byddi?" Ei herio hi oedd o ond er ei fod yn ceisio'i orau i roi'r ysgafnder hwnnw yn ei lais, dim ond tristwch oedd yno.

"A phan ddaw hi'n ddiwedd yr ha', mi awn ni'n dau am y Steddfod i Birkenhead i nôl y gadair adra i'r Ysgwrn," meddai Ellis wedyn.

"Awn, ond cofia di yrru'r awdl mewn da bryd, neu ddaw yna'r un gadair yn agos i'r Ysgwrn. Cofia, Ellis, paid â rhoi'r gora iddi, dal ati..." Roedd y ddau yn ceisio creu rhyw ysgafnder yn eu lleisiau, yn ceisio cipio cyfle i osgoi'r ffarwelio.

Safai'r ddau yno'n cydio dwylo, yn glòs, heb weld dim o'r byd o'u hamgylch, dau gariad yn ysu am gael bod gyda'i gilydd, fel pob dau gariad arall. Doedd ganddyn nhw ddim dewis ond gwahanu. Arhosodd y ddau felly am ychydig, yn cydio dwylo, yna cododd Jini ei dwy law am wyneb Ellis a'i gusanu.

"Mi fydda i yma yn aros amdanat ti, Ellis," sibrydodd. "Mi fydda i'n aros, ac yn gweddïo y cei di ddod yn dy ôl ataf fi, dwi'n addo..."

Fedrwn i ddim gwylio rhagor. Faint mwy o wahanu sydd raid? Es i i guddio o dan ddillad y gwely, hyd nes y gwaeddodd Mam arna i i ddod i nôl fy swper.



© WJEC CBAC Cyf. 

## AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

**4.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae Gladys yn bwysig i stori'r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** reswm pam roedd Harri Evans am weld yr heddlu yn yr ysbyty. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes Richard Jones yn dianc ar ddiwedd y nofel.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Einir?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr** ar dudalen 9.

(i) Edrychwch ar arddull llinell 4 yn y darn.
*Go damia, carreg. Pa mor isel tybed?*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinellau 17-18 yn y darn.
*Nid oedd awel o fath yn y byd, ac yn yr awyr yr oedd düwch cwmwl anferth wedi llyncu'r lleuad.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Meredydd.
Ysgrifennwch **ymson Meredydd** ar ôl iddo ofyn i Einir ei briodi am yr ail dro.
Cofiwch sôn am deimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

Byddai sgwâr dau led rhaw yn ddigon.

Tynnodd y tywyrch yn ofalus a'u gosod â'u pennau i lawr wrth ei ymyl, a dechreuodd dyllu'n ddiwyd a distaw gan ofalu rhoi pob mymryn o'r pridd ar y papur.

Go damia, carreg. Pa mor isel tybed? Rhoes ei law yn y twll. Cwta droedfedd. Dim digon o'r hanner. A fentrai roi golau? Yr oedd yn rhy dywyll iddo weld dim yn y twll ac nid oedd y rhimyn o leuad uwchben o unrhyw gymorth gan fod y cymylau'n gwibio ar ei draws yn ddi-baid. Golau amdani.

Aeth ar ei liniau uwchben y twll a goleuodd ei lamp. Pyramid o garreg. Byseddodd o'i chwmpas am ysbaid cyn darganfod meddalwch yn un pen. Turiodd â'i fys heibio iddi ac o'r diwedd llwyddodd i fynd odani. Roedd gobaith eto. Yn araf ac amharod daeth y garreg yn rhydd; cododd hi'n ofalus a'i rhoi ar ymyl y papur.

Yr oedd y twll yn culhau'n arw erbyn iddo balu sbel ymhellach. Tynnodd y tâp mesur o'i boced. Dwy droedfedd a hanner. Iawn. Golygai hynny dros ddwy droedfedd o bridd ar y blwch, digon i'w ddiogelu am byth petai angen. Cerddodd yn ôl at y gwrych ac ymbalfalodd yn y tyfiant am y blwch. Gwrandawodd am eiliad. Dim. Cofiodd iddo glywed sŵn y môr ar brynhawn stormus o'r fan hon ers talwm, ond yr oedd yn rhy dawel o lawer heno, ac ni chyrhaeddai sŵn unrhyw don ymhellach na phen y traeth bron filltir i ffwrdd. Nid oedd awel o fath yn y byd, ac yn yr awyr yr oedd düwch cwmwl anferth wedi llyncu'r lleuad.

Daeth yn ôl i'r cae ac aeth ar ei liniau drachefn i osod y blwch ar ei ochr ar waelod y twll. Byddai'n rhaid iddo lenwi'r pridd yn ôl â'i ddwylo rhag ofn i'r rhaw dorri'r papur. Efallai y byddai cynfas wedi bod yn well. Na, erbyn meddwl, byddai cynfas yn rhy drwm ac anhwylus i'w gario. Gollyngodd ychydig o bridd ar ben y blwch ac ymestynnodd am yr ordd. Gadawodd iddi ddisgyn yn araf ar y pridd, a dechreuodd ei chodi a'i gollwng yn gyson yn y twll i wasgu'r pridd yn iawn. Chwe modfedd o bridd eto. Gordd arno. Chwe modfedd arall. Gordd eto. Y garreg yn awr. Dewisodd yr wyneb mwyaf gwastad i'r garreg a rhoi hwnnw i orwedd ar y pridd. Gwasgodd bridd o'i hamgýlch ac ar ei phen â'i ddwylo cyn ailafael yn yr ordd.

Disgynnodd y defnyn cyntaf o law ar ei wegil. Daeth y mymryn lleiaf o ofn i'w lygaid. Aros am funud y diawl, meddyliodd. Os bwrith hi fe fydd yma ddigon o olion i'w gweld o Fynydd Ceris. Rhuthrodd am y gweddill o'r pridd, ond ymataliodd yn sydyn. Pwyll pia hi, Jôs, pwyll pia hi. Gorffennodd ei waith gyda'r un gofal a'r un trylwyredd ag a ddangosodd drwyddo draw.

## I BLE’R AETH HAUL Y BORE?

**5.** Atebwch y cwestiynau sy’n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu’n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae Dicks yn bwysig i stori’r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** beth creulon mae’r Cotiau Glas yn eu gwneud i’r Indiaid. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes Chico yn ymosod ar y Cotiau Glas a sut mae Chico’n cael ei gosbi ar ddechrau’r nofel.
**Esboniwch beth sy’n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Carleton?
Rhowch enghreifftiau o’r ffordd mae’n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble’r Aeth Haul Y Bore**? ar dudalen 11.

(i) Edrychwch ar arddull llinellau 3-4 yn y darn.
*Cerddodd Carson yn syth ato. Distawodd y sŵn ar amrantiad.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinell 15 yn y darn.
*Rhoddodd gic iddo ym mhwll ei stumog. Gorweddodd Dicks yno’n llonydd.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae’r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Chico.
Ysgrifennwch **ymson Chico** ar ôl i Carson adael Dicks gydag ef ar ddiwedd y nofel.
Cofiwch sôn am deimladau a’r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

Y chwerthin a aeth â Kit Carson tua'r barics. Nid chwerthin cyffredin mohono, ond chwerthin aflywodraethus. Chwerthin o waelod bol. Pan safodd yn y drws, gwelodd Dicks ar ganol y llawr, a blanced amdano, yn dawnsio dawns ryfel o ddiolch. Cerddodd Carson yn syth ato. Distawodd y sŵn ar amrantiad.

"Be 'di ystyr hyn?" gofynnodd i Dicks.

"Dathlu, syr!" atebodd hwnnw'n wawdlyd.

"Dathlu beth?"

Distawrwydd.

"Dathlu beth?" Roedd min ar ei lais.

"Rhoi ychydig o gynhesrwydd i gyfeillion yr Is-gyrnol, syr!"

Yn sydyn sylweddololodd Kit Carson beth oedd wedi digwydd. Teimlai rywbeth yn corddi yn ei stumog. Roedd o eisiau chwydu. Roedd Dicks wedi rhannu blancedi'r frech wen i'r Navahos.

Lledodd gwên dros wyneb Dicks. Yn sydyn, tynnodd Carson ei wn, a chyda'r carn, trawodd Dicks yn greulon ar draws ei wyneb. Syrthiodd hwnnw i'r llawr. Estynnodd am ei wn, ond roedd Carson yn gynt nag ef. Rhoddodd gic iddo ym mhwll ei stumog. Gorweddodd Dicks yno'n llonydd.

"Ten-shun!" Gwaeddodd Carson ei orchymyn.

Cléciodd sodlau a ffurfiwyd rhengoedd.

"Sarjant! Ewch â Chapten Dicks i'r Ystafell Warchod a'i gloi o yno. Wedyn, ugain o ddynion a dwy wagen i 'nilyn i yn syth i wersyll yr Indiaid."

"Ond, syr..."

"Yn syth, Sarjant! Llond un wagen o goed, un arall o fwyd. A deg o'r dynion i wisgo masgiau a menig."

Ymhen ychydig roedd y Ffort yn ferw o brysurdeb. Aeth Kit Carson allan ar ei union i nôl Herrero a'r *ricos* eraill. Yna aethant allan i wersyll y Navahos. Gorchmynnodd i Herrero Grande drefnu i gasglu'r blancedi i gyd yn un pentwr.

"Mae pla ar y blancedi, Herrero! Dydyn nhw ddim ffit i'w defnyddio! Fe ddaw yna filwyr yma ymhen ychydig i'w llosgi," ychwanegodd.

"A beth wnawn ni yn y cyfamser?"

"Rydw i'n trefnu i chi gael ychwaneg o flancedi. Mi fydd milwyr yn dod â nhw ymhen ychydig o amser. Fe gewch chi hefyd goed. Gwnewch danau i gynhesu."

## DIM – Dafydd Chilton

**6.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(a)* Pam mae Symonds yn bwysig i stori'r nofel? [3]

*(b)* Nodwch **ddau** beth mae Owain yn eu gwneud i siomi ei frawd, Gwyn. [3]

*(c)* Ysgrifennwch hanes Owain yn glanio yn Ynysoedd y Falklands.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]

*(ch)* Sut gymeriad yw Richard Lloyd?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

*(d)* Darllenwch y darn a gymerwyd o **Dim** ar dudalen 13.

(i) Edrychwch ar arddull llinell 21 yn y darn.
*… prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(ii) Edrychwch ar arddull llinell 25 yn y darn.
*Yna rhedeg. A chwilio a thanio. A galw am fwy o getris. A llwytho a symud ymlaen.*
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

(iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

*(dd)* Dychmygwch mai chi yw Gwyn.
Ysgrifennwch **ymson Gwyn** ar ôl iddo fynd â'i fab i weld y griafolen.
Cofiwch sôn am deimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]

**[40]**

Meddyliodd am y daith i gyrraedd yno, am yr oriau o lwch a jerian yng nghefn y drydedd lori, am y tawelwch anniddig di-sgwrs, am y surni poeth yn ei fol. Roedd wedi bwyta – ychydig o gyfle a gaen nhw yn ystod gweddill y dydd – ond pan mae dyn yn codi am ddau y bore mae ei stumog fel bawaid o gynrhon a hyd yn oed uwd *bota* yn anodd ei lyncu.

Wrth agosáu at wersyll y *ZANLA* fe ddechreuodd y cynrhon godi i'w lwnc. Edrychodd ar ei oriawr. Ychydig cyn wyth. Mi fydden nhw yn y gwersyll ymhen pum munud. Siawns na fyddai'r adrenalin yn cymryd drosodd cyn iddo dowlu i fyny.

Wyth o'r gloch. Cyrion y gwersyll. Y gwarchodwyr yn codi eu dwylo'n gyfeillgar ar y ceir arfog a'r lorïau'n gyrru heibio'u gwardfeydd pridd â'u tanau brecwast. Ychydig funudau'n ddiweddarach roedd y confoi'n gyrru i'r sgwâr gynnull. Dechreuodd torf o dduon hel o'i gwmpas o'r cytiau ar ymylon y sgwâr a rhedeg gydag ochr y cerbydau'n cyfarch ac yn codi llaw. Y tu hwnt i'r dorf roedd yna ragor ohonyn nhw'n dod, i weld a chroesawu'r newydd-ddyfodiaid. Criwiau, deuoedd a thrioedd, unigolion. Cannoedd ohonyn nhw.

Yn sydyn daeth bloedd, a phwyntio a gweiddi. Dechreuodd y dorf gilio, ac un neu ddau i redeg yn bwrpasol at y cytiau, lle'r oedd eu gynnau. Roedd rhywun wedi sylwi bod rhai o'r wynebau y tu ôl i lenni'r lorïau yn wynion. Ond roedd y confoi wedi cyrraedd canol y sgwâr, ac wedi dod i stop. Safai'n dawel am eiliad. Yna trodd tyredau'r cerbydau arfog i gyfeiriad y dorf a gollyngwyd ochrau cynfas y lorïau.

"*Fire!*"

Ar ôl hergwd a braw cyntaf tanio gwn otomatig, dydi dyn – ac yntau'n un chwydd o adrenalin – prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau. A phrin yn sylwi ar y trin. Na'r twrw. Dim, ond y llwytho a'r ail-lwytho. A'r canolbwyntio. A'r chwilio am darged: cefn crwn byw neu fynwes, unrhyw un efo gwn.

A thanio nes i hwnnw ddisgyn, neu ddianc o'r golwg. A gwneud yr un peth eto. Ac eto.

Yna rhedeg. A chwilio a thanio. A galw am fwy o getris. A llwytho a symud ymlaen.

A chwilio. A thanio.

Ac yna mae o drosodd.

Y corff yn dal i bwmpio ond dim byd ar ôl i'w saethu. Rhedeg, galw, chwilio. Edrych eto. Craffu ar y cyrff – oes yna un yn ffugio bod yn farw, ar fin tanio pistol neu daflu bom?

Ac yna lais y *Sergeant*, yn canmol, yn tawelu, yn rhoi gorchmynion i bylu'r min lladdgar. Yn gosod rhai i wylio, a rhai i wneud paned. A gadael unrhyw *terrorists* – ym mherthi'r *veldt* ac yn dal i redeg – i'r awyrennau.

**DIWEDD Y PAPUR**

**TUDALEN WAG**

**TUDALEN WAG**